**Pennaeth Addysg**
**Head of Education**
Dewi R. Jones

Gofynnwch am/Ask for: **Dewi R Jones**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **DRJ/KB**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
dewirjones@gwynedd.gov.uk

**Eitem 7 – Atodiad 1i**

10 Mehefin 2014

**At Benaethiaid Ysgolion Uwchradd**

Annwyl Gyfeillion

**Ymgynghori : Datganoli Cyllid Strategaeth Cynhwysiad**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Adolygu Fformiwla Uwchradd ar 27 Tachwedd 2013 i drafod sefydlu fformiwla addas ar gyfer datganoli cyllid strategaeth cynhwysiad. Dyma benderfyniwyd gan y Grŵp *(mwyafrif y grŵp yn cytuno ond ddim yn gwbl unfrydol) -*

- *Datganoli llawn Ebrill 2015.*
- *Pwysiad cyfartal o 25% - ADY, PYD, CA3, CA4*
- *Swm Craidd (lleiafswm) o £20,000 i bob ysgol*
- *Taenlen i rybuddio i'w rhoi allan i'r ysgolion Ebrill 2014 fel bod ysgolion yn ymwybodol o'r sefyllfa ddigon ymlaen llaw. Byddai hyn yn galluogi'r ysgolion i ddelio gydag achosion megis medrusrwydd ayb, o fewn yr amserlen ofynnol.*

Gyda mwyafrif y Grŵp yn cytuno ar sail dosbarthu, amgaeaf daenlen sy'n amlygu hyn ac yn cymharu'r sefyllfa gyda'r sail dosbarthu wreiddiol. Mae hyn i gyd ar sail prisiau 2014/15 ac ystadegau Medi 2013 (un unol â'r ystadegau a defnyddiwyd yn eich dyraniad ar gyfer 2014/15).

Pwrpas y llythyr yma yw cynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda chi fel ysgolion uwchradd gan ofyn i chi ymateb trwy gefnogi'r sail dosbarthu a gynigir neu ymateb yn gwrthwynebu gan gynnig eich sail dosbarthu ffafriedig ac esboniad pam bod eich sail dosbarthu yn fwy addas. **Gofynnir i chi ddarparu ymateb i mi erbyn 3 Hydref 2014 os gwelwch yn dda.**

Y bwriad yw cyflwyno adroddiad cynhwysfawr ar y mater i gyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn Nhymor yr Hydref 2014.

O safbwynt y trefniadau ar gyfer trosglwyddo staff i gyflogaeth yr Ysgol, bydd angen dilyn proses o drosglwyddo cyflogaeth o'r canol if od yn gyflogaeth gan yr Ysgol.

Yn gywir

*Dewi R Jones*

**Dewi R Jones**
**Pennaeth Addysg**

Copi: **Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Gwynedd**
Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet dros Addysg
Hefin Owen, Rheolwr Cyllid
Owen Owens, Uwch Reolwr Addysg